------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Hydref 2024

Amser: 14.00


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru


## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 28)

## 2 Deisebau newydd

2.1 P-06-1461 Cael gwared ar y 'Gweithredoedd Sylfaenol' a'r gostyngiadau arfaethedig mewn taliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(Tudalennau 29 - 36)

2.2 P-06-1473 Lleihau bil treuliau Aelodau o'r Senedd

(Tudalennau 37 - 40)

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru

(Tudalennau 41 - 51)

3.2 P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru

(Tudalen 52)

3.3 P-06-1374 Dylai tirfeddiannwyr Cymru - yn yr un modd â Lloegr - allu caniatáu 60 diwrnod y flwyddyn o wersylla mewn pebyll a faniau

(Tudalennau 53 - 55)

3.4 P-06-1433 Rhaid atal y gwaharddiad ar GB News yn y Senedd

(Tudalennau 56 - 59)

3.5 P-06-1442 Ehangu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion uwchradd

(Tudalennau 60 - 65)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.6 P-06-1455 Amddiffyn adrannau iau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru rhag cael eu cau

(Tudalennau 66 - 67)

## Deisebau ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol

3.7 P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

(Tudalennau 68 - 71)

3.8 P-06-1341 Canllawiau hygyrch ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn helpu'r broses o ddatblygu cynlluniau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol

(Tudalennau 72 - 73)

3.9 P-06-1342 Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru

(Tudalen 74)

3.10 P-06-1347 Adolygu polisïau anghenion dysgu ychwanegol a'i gwneud yn orfodol i hyfforddi pob athro a chynorthwyydd addysgu mewn technegau rheoleiddio YN LLAWN

(Tudalennau 75 - 76)

3.11 P-06-1406 Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

(Tudalen 77)

## Papur i'w nodi

3.12 P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

(Tudalennau 78 - 79)

3.13 P-05-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(Tudalennau 80 - 87)

**Preifat**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1461: Cael gwared ar y 'Gweithredoedd Sylfaenol' a'r gostyngiadau arfaethedig mewn taliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Y Pwyllgor Deisebau | 14 Hydref 2024
Petitions Committee | 14 October 2024

**Cyfeirnod:** SR24/9547-5

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1461

**Teitl y ddeiseb**: Cael gwared ar y 'Gweithredoedd Sylfaenol' a'r gostyngiadau arfaethedig mewn taliadau o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Geiriad y ddeiseb:** Bydd y cynnig i'w gwneud yn 'ofynnol plannu 10% o orchudd coed a throi 10% o dir cynhyrchiol yn dir cynefin yn arwain at ostyngiad amlwg o 20% a mwy yn y bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru, colli swyddi a throsiant cyffredinol o fusnesau, a hynny mewn diwydiant sydd eisoes mewn cyni. Bydd hyn yn ei dro yn cael effaith enfawr ar fusnesau gwledig, ar gymunedau, ac ar safonau byw cyffredinol teuluoedd. Bydd pob gweithred sylfaenol yn golygu cynnydd o ran llafur/gwaith papur a chostau i alwedigaeth sydd eisoes dan straen, ond ni fydd taliadau uwch i gyd-fynd â hyn.
Anymarferol!

Rhagor o fanylion

Yn ôl amcanestyniadau'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol:
Bydd gostyngiad o 10.8%, neu 122,200, yn nifer yr unedau da byw,
Caiff 11%, neu dros 5,500, o swyddi eu colli,
Bydd allbwn o'r sector yn dioddef ergyd gwerth £125.3 miliwn.

Bydd busnesau fferm yn colli £199 miliwn o’u hincwm.
Nid yw'n gwneud nemor ddim ar gyfer diogelwch bwyd y wlad, na dyfodol y diwydiant amaethyddol.
Mae llawer iawn o waith amgylcheddol da wedi cael ei wneud gan ffermwyr o dan gynlluniau blaenorol, ond mae hyn mewn perygl o gael ei golli neu ei wrthwneud, a hynny oherwydd y ffaith seml y bydd ymuno â'r cynllun hwn yn arwain at ostyngiad ariannol ar adeg o gynnydd mewn costau mewnbynnau a threuliau.
Os na chaiff ei newid, bydd y cynllun yn achosi i lawer o ffermydd gau, yn enwedig ffermydd newydd a ffermydd â thenantiaid.
Mae llawer o'r gweithredoedd sylfaenol yn cyfeirio at y targedau 'Sero Net', ond am ba gost?
Nid yw gwlad sy’n methu â chynhyrchu ei bwyd ei hun yn 'gynaliadwy'!  Nid yw'r cynllun hwn yn gynaliadwy!

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-12/effeithiau-economaidd-posibl-y-cynllun-canlyniadau-modelu-gweithredoedd-sylfaenol-y-cynllun-ffermio-cynaliadwy-cam-4.pdf

# 1. Cefndir

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC neu 'y cynllun') yw polisi amaethyddol newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru – i ddisodli system gymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE ar gyfer ffermwyr.

Mae system y PAC wedi’i chynnal i raddau helaeth yng Nghymru ers i’r DU ymadael â’r UE, wrth i’r cynllun newydd gael ei ddatblygu. Yn ystod y cyfnod hwn, bu ymgynghoriadau lluosog ac ymarfer cyd-ddylunio ar y cynllun.

Mae cynigion y CFfC yn wyriad sylweddol oddi wrth Gynllun y Taliad Sylfaenol (taliadau uniongyrchol) o dan y PAC, gyda mwy o bwyslais ar wobrwyo am nwyddau cyhoeddus, megis camau amgylcheddol gofynnol. Yn debyg i’r PAC, byddai’r penderfyniad i ymuno â'r cynllun yn ddewisol. Bwriad y CFfC yw gwobrwyo ffermwyr am gymryd camau gweithredu yn seiliedig ar amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (a restrir yn *Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023*) i wneud y canlynol:

1. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;

2. lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd;
3. cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu; a
4. chadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a’u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

Roedd yr ymgynghoriad diweddaraf, a gaeodd ym mis Mawrth 2024, yn cynnwys strwythur haenog y cynllun. Byddai'n ofynnol i bob ffermwr sy'n cymryd rhan yn y CFfC gyflawni 17 o 'Weithredodd Sylfaenol' (y mae nifer ohonynt yn weithredoedd amgylcheddol) er mwyn cael y 'Taliad Sylfaenol Cyffredinol'. Yna, yn seiliedig ar hynny, byddai gweithredoedd 'Opsiynol' a 'Chydweithredol' yn fodd iddynt gael eu gwobrwyo ymhellach. Byddai’r gweithredodd hyn yn fwy cymhleth ond ni fyddent yn orfodol. Mae rheolau’r cynllun, sy’n ofynnol i’r rhai sy’n cymryd rhan, yn cynnwys:

- o leiaf 10 y cant o bob fferm yn cael ei reoli fel cynefin; ac
- o leiaf 10 y cant o dan orchudd coed fel coetir neu goed unigol.

Roedd y fethodoleg arfaethedig ar gyfer taliadau o dan y cynllun yn seiliedig ar gostau a ysgwyddir ac incwm a gollir, yn ogystal â thaliad cymdeithasol ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb na graddfeydd y taliadau ar gyfer y cynllun yn hysbys eto. Nododd yr ymgynghoriad y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau o leiaf yr un lefel o gyllid gan Lywodraeth y DU â’r hyn a welwyd yn 2024/25.

Mae’r cynigion wedi ysgogi adwaith cryf gan y diwydiant ffermio. Mae pryder ynghylch y fethodoleg ar gyfer taliadau a’r gyllideb bosibl. Mae’r undebau ffermio yn pryderu y bydd yr 17 o Gamau Gweithredu Cyffredinol yn rhy feichus a biwrocrataidd. Maent yn cwestiynu dichonoldeb y cynigion ar gyfer systemau ffermio gwahanol.

Croesawodd grwpiau amgylcheddol uchelgais amgylcheddol y cynllun, ond roeddent o’r farn bod angen i’r cynllun weithio i ffermwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan. Lleisiwyd pryderon hefyd am y fethodoleg ar gyfer y taliadau.

Mae rheolau'r cynllun sy'n nodi’r gofynion am orchudd coed a rheoli cynefinoedd wedi bod wrth wraidd y dadleuon. Mae rhai ffermwyr yn pryderu y gallai’r gofynion hyn arwain at dynnu gormod o dir allan o gynhyrchiant amaethyddol, gan olygu y byddant yn rhwystr rhag ymuno â'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill (fel y Rhwydwaith Ffermio Cyfeillgar i Natur a grwpiau

amgylcheddol) wedi dadlau y gallai rheolau'r cynllun gael eu hintegreiddio mewn systemau amaethyddol, gan arwain at fuddion o ran cynhyrchiant amaethyddol. Er enghraifft, gallai coed weithredu fel lleiniau cysgodi a lliniaru llifogydd.

Mae rhai ffermwyr yn pryderu nad oes digon o gymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd, a bod hyn yn fygythiad o ran diogelwch bwyd. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw y bydd cefnogi gwell rheolaeth amgylcheddol yn gwella cynhyrchiant bwyd, gan eu bod yn mynd law yn llaw. Roedd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig blaenorol, o'r farn na ddylid categoreiddio bwyd fel nwydd cyhoeddus gan fod gwerth iddo ar y farchnad. Yn sgil hynny, roedd o'r farn na ddylai bwyd gael ei ariannu'n uniongyrchol gan y wladwriaeth. Yn hytrach, nod dyluniad y cynllun oedd cefnogi ffermwyr a chynhyrchiant bwyd drwy'r amrywiol gamau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau'r gwaith modelu a wnaed gan ADAS (y cyfeirir atynt yn y ddeiseb hon), sy'n awgrymu y byddai'r cynllun yn creu tua 26,000ha o gynefin lled-naturiol newydd a 28,000ha o goetir newydd, ond hefyd yn arwain at leihad o £199 miliwn yng nghyfanswm incwm ffermydd a lleihad o £125 miliwn yng nghyfanswm eu hallbwn. Mae'r gwaith modelu hefyd yn dangos y byddai unedau da byw yn gostwng 122,000 a llafur ar ffermydd yn gostwng 11 y cant. Mae NFU Cymru yn dweud y gallai hyn fod gyfystyr â cholli 5,500 o swyddi.

Mae'r gwaith modelu yn "dangos y canlyniadau gwaethaf", ac mae cafeatau sylweddol ynghlwm â'r gwaith hwn. Mae Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, yn nodi yn ei lythyr ynghylch y ddeiseb hon fod gwaith modelu ADAS yn seiliedig ar fersiwn gynharach o'r cynllun. Disgwylir gwaith modelu pellach.

Mae Ymchwil y Senedd wedi llunio erthygl a briff ymchwil hirach ar gynigion y CFfC, ac ymateb rhanddeiliaid.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Cafodd yr ymgynghoriad diweddaraf ei ddisgrifio fel y "cam olaf" cyn cyflwyno'r cynllun yn 2025. Fodd bynnag, yn dilyn ymateb cryf gan ffermwyr, ym mis Mai, cyhoeddodd Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, y byddai oedi cyn cyflwyno'r cynllun – o 2025 i 2026.

Bydd "Cam Paratoi ar gyfer y CFfC" bellach yn cael ei gynnal yn 2025. Mae Bord Gron Weinidogol ar gyfer y CFfC, sy'n cynnwys rhanddeiliaid, wedi'i sefydlu ar gyfer ymgynghoriad pellach. Diben a chwmpas y Ford Gron yw adolygu a thrafod y blaenoriaethau ar gyfer haenau Cyffredinol, Dewisol a Chydweithredol yr CFfC, ynghyd â rheolau'r cynllun (gan gynnwys y gofynion sy'n ymwneud â lleiafswm o 10%), y meini prawf cymhwystra, a'r fethodoleg ar gyfer taliadau.

Mae dau is-grŵp – y Panel Adolygu Tystiolaeth ynghylch Atafaelu Carbon a Gweithgor Swyddogion y SFS – hefyd yn bwydo i mewn i'r Ford Gron Weinidogol.

Mae cynlluniau dros dro ar gael yn ystod y cyfnod hwn, megis y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig newydd, ynghyd â Chynllun y Taliad Sylfaenol.

Mae rhagor o fanylion am y cam nesaf i'w gweld yn 'Ein hymateb ni' (ymateb Llywodraeth Cymru, ym mis Gorffennaf 2024, i'r ymgynghoriad ynghylch y CFfC). O ran y camau nesaf, mae'n dweud:

> Nid oes penderfyniadau manwl ar ddyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u gwneud eto. Rydym yn deall y pryderon a godwyd yn y broses ymgynghori, ac mae'n amlwg y bydd angen newid y Cynllun cyn ei fabwysiadu.
>
> Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Ford Gron Weinidogol a'i his-grwpiau a ddisgrifir uchod i ddatrys yr heriau sy'n weddill cynllunio'r Cynllun terfynol.
>
> Rydym yn disgwyl diweddariadau achlysurol gan y Ford Gron drwy'r flwyddyn.

Disgwylir i fanylion y cynllun terfynol gael eu cyhoeddi yn nhymor yr haf 2025.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) wedi cynnal ymchwiliadau i'r CFfC.

Gwnaethoch drafod P-06-1388 Dileu'r gofyniad i ffermwyr gael o leiaf 10 y cant o orchudd coed i allu manteisio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Cafodd y ddeiseb ei chyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i'w thrafod fel rhan o'i waith ar y CFfC.

Mae sawl dadl ar y CFfC wedi'u cynnal yn y Cyfarfod Llawn (er enghraifft, y ddadl ar 28 Chwefror 2024).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1461
Ein cyf/Our ref HIDCC/10175/24

Y Pwyllgor Deisebau
petitions@senedd.wales

20 Medi 2024

Annwyl Cadeirydd,

Diolch am eich llythyr ar 6 Medi yn ymwneud â deiseb P-06-1461 a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig (SFS) yn seiliedig ar amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy (SLM) a sefydlwyd yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru). Yr amcanion hyn yw;

- * Cefnogi Cynhyrchu Bwyd a Nwyddau Eraill yn Gynaliadwy
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision y maen nhw'n eu darparu
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Er mwyn adlewyrchu'r amcanion hyn, cefnogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn barhaus yw conglfaen cynigion yr SFS. Fodd bynnag, yr argyfwng hinsawdd yw'r prif risg i gynhyrchu bwyd dros y tymor hir, ac mae ein hecosystemau naturiol yn un o'r amddiffynfeydd gorau sydd gennym wrth ymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae'r SFS arfaethedig yn cynnwys cyfres o Weithredoedd Cyffredinol i fuddsoddi ynddynt, er enghraifft, ein priddoedd, ecosystemau, iechyd anifeiliaid a sgiliau ein ffermwyr, yr ydym yn eu hystyried yn fuddsoddiadau wrth ddiogelu ein gallu i gynhyrchu bwyd yn y dyfodol.

Nid ydym yn credu y bydd Rheolau'r Cynllun arfaethedig o gynefin 10% a gorchudd coed 10% yn arwain at ostyngiad o 20% mewn cynhyrchu bwyd yng Nghymru. Bydd cynefinoedd lled-naturiol presennol, a'r coed presennol yn cyfrif tuag at y gofynion hyn o 10%, felly bydd llawer o ffermwyr eisoes rhyw ffordd tuag at gwrdd â'r rhain, os nad ydynt yn gwneud hyn yn barod.

Pan fydd cynefinoedd newydd yn cael eu creu i fodloni Rheolau'r Cynllun, rydym yn cynnig y bydd ffermwyr yn gallu creu nodweddion cynefin dros dro gwerthfawr fel sefydlu gwyndynnydd llysieuol. Mae'r rhain yn rhoi manteision amaethyddol trwy wella gwytnwch y glaswelltir, megis trwy gynnwys rhywogaethau sy'n gwreiddio'n ddyfnach a all gael mynediad at leithder dyfnach i frwydro yn erbyn hafau sych, yn ogystal â darparu buddion ecolegol i bryfed peillio. Yr hyn sy'n bwysig, yw bod yr opsiynau creu cynefinoedd a gynigir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar gyfer yr Haen Sylfaeool dros dro o ran natur ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn arwain at gyfyngiadau parhaol ar dir fferm cynhyrchiol.

Rydym wedi addasu'r gofynion gorchudd coed 10% i ddarparu ar gyfer cyfyngiadau amrywiol fel y ffermwyr tenantiaid hynny na fyddant yn gallu plannu coed oherwydd amodau eu cytundeb tenantiaeth. Lle mae coed ychwanegol i'w plannu, rydym yn parhau i edrych ble y gellir integreiddio coed fel eu bod yn dod yn ased i fusnes y fferm megis trwy leiniau cysgodi ac amaeth-goedwigaeth. Yn y modd hwn gall y coed ddarparu cysgod a lloches gwerthfawr i dda byw yn ystod ein tywydd cynyddol anghyson, ond nid yw'n arwain at golli ardaloedd mawr o borfa.

Mae'r dystiolaeth ADAS y cyfeirir ati yn y ddeiseb yn adlewyrchu effeithiau fersiwn gynharach o'r cynllun, nid y fersiwn a gynhwysir yn yr ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Mawrth eleni. Roedd yr asesiad economaidd hwn yn ddarn pwysig o waith a helpodd i lywio ein hymgynghoriad. Mae wedi helpu i nodi risgiau posibl y cynllun, megis gostyngiad posibl mewn allbwn amaethyddol yr ydym yn ei ystyried. Er enghraifft, roedd yr asesiad yn tybio bod cyfyngiadau pori ar goetir a chynefinoedd, yr ydym bellach yn bwriadu eu dileu.


Nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ar ddylunio cynllun. Cyhoeddais ar 3 Mai fy mod yn gwrando ar bryderon y diwydiant ac ers hynny rwyf wedi sefydlu Bwrdd Crwn Gweinidogol i weithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid allweddol i adolygu'r camau hanfodol sy'n arwain at ddatblygu Cynllun diwygiedig. Cyhoeddais ymhellach ar 14 Mai fy mod wedi symud dechrau'r SFS o 2025 i 2026 er mwyn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn datblygu Cynllun sy'n cefnogi diwydiant amaethyddol cynaliadwy a gwydn yng Nghymru.

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad diweddaraf gennym ym mis Gorffennaf, lle wnaethom ail-ddatgan y gwaith gyda rhanddeiliaid ar y Bwrdd Crwn Gweinidogol i fireinio dyluniad y cynllun. Enghraifft dda o'r bartneriaeth gynhyrchiol hon gyda'r Bwrdd Crwn Gweinidogol yw'r cyhoeddiad ar 23 Gorffennaf i roi'r newyddion diweddaraf i'r diwydiant ar y cynnig i gynnwys rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Bydd hyn yn cydnabod ymdrechion ffermwyr i reoli'r ardaloedd hyn, er budd pawb, ac yn sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu hintegreiddio o fewn rheolaeth ehangach ffermydd, gan gydbwyso cynhyrchu bwyd a chamau gweithredu sy'n gwella rhagolygon cynefinoedd natur a dŵr croyw.

I ailadrodd, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar ddyluniad cynllun yr SFS nes bod y cyfnod hwn o ymgysylltu â'r Bwrdd Crwn Gweinidogol wedi'i gwblhau. Rwy'n disgwyl rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed i'r Cyfarfod Llawn y tymor hwn.

Byddwn yn falch o ddarparu unrhyw wybodaeth bellach sy'n ofynnol gan y Pwyllgor Deisebau.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1473 Lleihau bil treuliau Aelodau o'r Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 14 Hydref 2024
Petitions Committee | 14 October 2024

**Cyfeirnod:** SR24/9547-17

**Rhif y Ddeiseb**: P-06-1473

**Teitl y ddeiseb**: Lleihau bil treuliau Aelodau o'r Senedd

**Geiriad y ddeiseb:** O ystyried y sefyllfa ariannol bresennol y mae pob teulu yng Nghymru yn ei hwynebu, gan mai swydd yw bod yn Aelod o'r Senedd, rwy'n cynnig na ddylai'r treuliau y mae Aelodau o'r Senedd yn eu hawlio gynnwys costau y mae pob aelwyd arall yng Nghymru yn eu hysgwyddo, felly dim talu biliau cyfleustodau, y dreth gyngor, rhent na chostau gwella'r cartref mwyach. Ni ddylid talu mwy na gwerth cyfatebol cost trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer treuliau teithio, a chyfraddau Travelodge y dylid eu talu ar gyfer unrhyw arhosiad mewn gwesty.

# 1. Y cefndir

## 1.1. Lwfansau a threuliau'r Aelodau

Mae’r lwfansau y gall Aelodau eu hawlio, gan gynnwys costau teithio, llety a chynhaliaeth, wedi’u nodi yn y Penderfyniad. Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy’n pennu’r Penderfyniad. Mae’r Penderfyniad yn nodi manylion y treuliau y gall Aelodau o’r Senedd eu hawlio, y lefelau uchaf y gellir eu hawlio ar gyfer treuliau gwahanol a rheolau ac egwyddorion cyffredinol y mae’n rhaid i Aelodau eu dilyn wrth wneud unrhyw hawliadau am dreuliau. Caiff y Penderfyniad ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a gall fod yn destun rhagor o adolygiadau cyfnodol gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

## 1.2. Y Bwrdd Taliadau Annibynnol

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau Aelodau, yn ogystal â’u lwfansau eraill, fel costau staffio, teithio a swyddfa.

Sefydlwyd y bwrdd yn dilyn adolygiad annibynnol o bob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau o’r Senedd yn 2008. Gwnaeth 108 o argymhellion gan gynnwys y dylid sefydlu corff annibynnol i wneud penderfyniadau am lefelau’r cymorth ariannol i Aelodau o’r Senedd.

Yn 2010, sefydlwyd y Bwrdd Taliadau Annibynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae'r Bwrdd yn yn cynnwys Cadeirydd a phedwar aelod o'r Bwrdd a benodir gan Gomisiwn y Senedd am gyfnod o bum mlynedd.

Mae'r Bwrdd yn cyhoeddi ei Benderfyniadau ar ôl ymgynghori â'r rhai y mae'n debygol y byddant yn effeithio arnynt. Mae gwefan y Bwrdd yn nodi sut mae barn y cyhoedd yn cael ei hystyried yn ei waith. Mae’n nodi y cyhoeddir ei holl gynigion ac y bydd y Bwrdd ‘yn ystyried yr holl ymatebion cyn cytuno ar y ffordd ymlaen’. Mae'n rhoi manylion ynghylch sut y gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â'r Bwrdd.

Mae’n ofynnol i’r Bwrdd weithredu mewn modd agored a thryloyw a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ei weithgareddau y mae’n rhaid iddo eu gosod gerbron y Senedd. Mae'r adroddiadau blynyddol, cyfarfodydd y Bwrdd, agendâu a rhagor o wybodaeth am ei weithrediad ar gael ar ei wefan.

Yn ogystal â phennu'r Penderfyniad ar gyflogau a threuliau'r Aelodau, mae'n cynnal adolygiadau thematig o'r cymorth ariannol a ddarperir i Aelodau o'r Senedd.

## 2. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Comisiwn y Senedd sy'n gyfrifol am weinyddu a thalu lwfansau a threuliau Aelodau o'r Senedd yn unol â'r Penderfyniad a bennwyd gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i roi effaith i unrhyw benderfyniad a wneir gan y Bwrdd.

Caiff hawliadau am lwfansau a wneir gan Aelodau o 2008 ymlaen eu cyhoeddi ar-lein ar y System Cyhoeddi Lwfansau.

Mae'n ofynnol i Aelodau o'r Senedd gadw at God Ymddygiad. Mewn perthynas â threuliau a lwfansau, mae'r Cod yn nodi'r canlynol:

- Rheol 8: Rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r rheolau a wneir o bryd i'w gilydd gan Glerc a Phrif Weithredwr y Senedd ar y defnydd o adnoddau a ddarperir i Aelodau gan Gomisiwn y Senedd;
- Rheol 9: Ni chaiff Aelodau gamddefnyddio taliadau, lwfansau nac adnoddau sydd ar gael iddynt o dan benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

Ymchwilir i unrhyw gwynion ynghylch achosion honedig o dorri'r Cod gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd ac wedi hynny gan Bwyllgor Safonau'r Senedd.

Wrth ymateb i gwestiynau am lwfansau a threuliau Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Mai 2024, dywedodd Hefin David AS, Comisiynydd y Senedd dros y gyllideb a llywodraethu y canlynol:

> Mae cyllideb ddrafft y Senedd yn cynnwys swm a bennwyd ar gyfer materion yn ymwneud â threuliau Aelodau y mae'r bwrdd taliadau wedi gofyn i ni eu neilltuo. Y newyddion da i chi yw nad yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn hawlio'r uchafswm treuliau y mae ganddynt hawl iddo. Credaf ei bod yn werth inni ddatgan hynny'n uchel: nid yw'r Aelodau'n hawlio'r uchafswm treuliau y mae ganddynt hawl iddo. Ac mae hynny'n rhoi cryn dipyn o le i ni fynd i'r afael â threuliau annisgwyl…

# 3. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Comisiwn y Senedd ac nid Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflogau, lwfansau a threuliau Aelodau o'r Senedd. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru fydd yn talu costau a ysgwyddir gan Aelodau o'r Senedd mewn rôl fel Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddogaethau gweinidogol ar ran y Llywodraeth megis ymweliadau gweinidogol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Dr Linda Evelyn Joyce-Jones, ar ôl casglu 308 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Ym 1999, newidiodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth i ganiatáu i fwy na dim ond milfeddygon cymwys fod yn berchen ar bractisau milfeddygol. Fe wnaeth hyn olygu bod modd i gorfforaethau rhanddeiliaid eciwiti preifat brynu i mewn i'r farchnad hon. Mae'r sefydliadau hyn sy'n cael ei gyrru gan elw wedi newid y proffesiwn fel mai prin y mae modd ei adnabod.
Mae llawer o rannau o Gymru lle mae bron yn amhosibl dod o hyd i bractis milfeddygol sy'n cael ei redeg yn annibynnol. Mae'r pryniant corfforaethol bellach yn ymestyn i ddarpariaeth y tu allan i oriau a phractisau atgyfeirio yn ogystal â phractisau cyffredinol. Y corfforaethau sydd hefyd yn berchen ar y labordai, y cwmnïau cyffuriau a'r amlosgfeydd anifeiliaid anwes, yn ogystal â rhandaliadau mewn llawer o gwmnïau bwyd anifeiliaid anwes. Mae monopoli o'r fath yn golygu bod bron dim posibilrwydd i'r ychydig o bractisau annibynnol sy'n weddill allu goroesi. Yn bennaf oherwydd eu grym prynu drwy recriwtio, o'r ysgol filfeddygol i'r practis, mae gan y corfforaethau fantais. Yn y cyd-destun hwn, mae eu dylanwad ar gyrff fel Coleg Brenhinol y Milfeddygon a Chymdeithas Milfeddygon Prydain i'w ddisgwyl.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
I'r rheini ohonom ag anifeiliaid anwes, mae'r monopoli hwn wedi cael effeithiau ofnadwy. Mae hyn yn cynnwys diffyg dewis o ran canfod practis annibynnol, gweld yr un milfeddyg ar gyfer parhad gofal a chost. Ond mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau clinigol yn cael eu gwneud gyda pholisïau corfforaethol yn fwyaf pwysig.
Mae'n drist dweud bod fy mhrofiad gyda fy nghath Rosa yn golygu na fyddaf byth yn ymddiried mewn rhai yn y proffesiwn. Mae anifeiliaid anwes yn rhan o deuluoedd pobl. Mae Covid, ynysu a phroblemau iechyd meddwl wedi gwneud y berthynas hon yn fwy gwerthfawr byth.

Mae'n gas gen i feddwl (ond wedi cael fy hysbysu) sut mae'r sector achub anifeiliaid yng Nghymru yn ymdopi. Oherwydd mae'n rhaid ei fod yn ymdrin â rhai o'r anifeiliaid sydd wedi wynebu'r cam-drin mwyaf a'r her glinigol fwyaf, ac yn aml mae ganddynt anghenion meddygol sylweddol a chymhleth. Er gwaethaf deisebau niferus i Lywodraeth y DU, nid yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cymryd unrhyw gamau o gwbl. Mae Cymru wedi arwain y ffordd o'r blaen ynghylch anifeiliaid a'u lles, felly rydym yn gofyn i'r Senedd wneud hynny.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru

Competition & Markets Authority

Jack Sargeant MS
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

From: Martin Coleman
*CMA Panel Chair*

Telephone: 020 3738 6000

Our ref: MP001288

19 August 2024

Dear Mr Sargeant

Thank you for your letter dated 17 July. Thank you also for highlighting the work carried out by Dr Linda Evelyn Joyce-Jones and the Petitions Committee.

We have followed the work of the Petitions Committee with interest, and we will take the evidence gathered by the Committee into consideration. We will keep you and the Committee updated as we progress.

We appreciate Dr Joyce-Jones' continued engagement with our work and are pleased that she was able to join us at a roundtable event that we held recently in Swansea.

The event was also attended by a number of veterinary surgeons working in independently owned clinics in Wales, and representatives from the office of the Chief Veterinary Officer for Wales and the British Veterinary Union. We discussed a number of key issues including:

- Challenges for the sector focused on independent vets / barriers to entry
- Contextualised care
- Trends in the industry - eg humanisation of pets
- Veterinary medicines
- Regulation of the sector

and we welcomed Dr Joyce-Jones' helpful input to these discussions.

We recently published our Issues Statement which sets out the particular issues under consideration and our intended approach. We are taking into account the changing structure of the market and the impact of different business models in the sector, including those adopted by large vertically integrated groups. We are continuing our evidence gathering as we progress our wide-ranging investigation. Dr Joyce-Jones can continue to follow the progress of our investigation via our case page.

Best regards



**Martin Coleman**
*CMA Panel Chair*
Martin.Coleman@cma.gov.uk

# Uncovering the Impact of Corporate Takeovers on Veterinary Practices: A Closer Look at Rising Fees and Animal Welfare

In recent years, a concerning trend has emerged within the veterinary industry - the corporate takeover of veterinary practices. The gradual shift towards prioritizing wealth over health has catalysed a significant rise in vet fees not only in the UK but also around the world. Who are these corporate entities that are rapidly acquiring independent vet practices, and what implications does this hold for animal welfare? This is what an enquiry into the corporate take over of the veterinary professional in Wales would aim to discover and highlight why we need one in place.

The landscape of veterinary care is evolving, with small independent practices being gradually replaced by corporate giants seeking to monopolize the industry. The cosy, trustworthy, familiar, usually family-run vet clinics that once stood as pillars in communities are now being swallowed up by faceless entities driven by profit margins. While from a business perspective this consolidation may seem lucrative, the repercussions for animal health and welfare are dire. This is not a tech giant charging hundreds for a new brand of phone in which customers can opt out of buying and just purchase a cheaper alternative. This has become a monopoly on lives. We have known cats survive a road traffic accident and be taken to a vet by drivers, which is exactly what we ask for and expect as part of being part of a morally sound society, just to be tragically euthanised with simple cuts and bruises because owners could not afford to stump up huge amounts of money in an instant.

The consolidators, often backed by substantial financial resources, are strategically acquiring independent vet practices to expand their reach and maximize profits. These corporations operate with an efficiency-driven mindset, aiming to streamline operations and prioritize revenue generation. However, this drive for financial gain often comes at the cost of compromising the quality of care provided to our beloved animal companions.

In the veterinary industry, corporates refer to large companies or consolidators that acquire independent veterinary practices for strategic purposes. The six large corporate groups in the UK are CVS, IVC, Linnaeus, Medivet, Pets at Home and VetPartners, and we would urge the Welsh Government to open an investigation of their own into the effect this is having on sentient beings lives across the nation.

As we spend more on our cats, dogs and other precious beloved family members, the veterinary industry has become attractive targets for big corporations, and pet

owners are seeing higher bills and declining care as a result. Veterinarians and their employees tend to have comparatively low salaries compared to human doctors and nurses. In addition, pet ownership has boomed in recent years, with pet owners willing to spend whatever it takes to keep their beloved companions healthy. To put into context how much we spend on our pets each year in the UK, the Office for National Statistics revealed there has been a 270% increase from 2005 to 2021. The corporates see these rising figures, and they want in. With profit solely on the minds of these big organisations, animal welfare, as well as the welfare of the people who went into the industry wanting to help animals, has dwindled significantly over the last few years. The veterinary sector has the highest suicide rate of any other profession which we urge you to note.

Issues have now been going on so long that we have an entire generation who no longer know the traditional, animal centric, veterinary practice that the older generations remember so fondly. In many areas across the UK now, corporate owned veterinary practices dominate, yet people tend not to notice because the practices keep their original name and even veterinary staff. People are no longer aware their vets are no longer free to advise on a course of treatment, closer external service (such as pet crematorium or laboratory), or the most cost-effective avenue for the patient. They have no idea their vets are working to maximise profit at the expense of their sick, injured or, tragically, dying animal. The entire face of the veterinary industry has changed right before our eyes and we are running out of time to put the breaks on and turn it back to animal welfare.

It is not just the veterinary practices themselves they now pull the strings of, the corporates have now bought into out of hours services', often creating an expensive monopoly in most areas, pet crematoriums, laboratories, pet insurance...even the pet food itself! Let's start with the out of hours service, something we see our supporters often needing due to the untimely nature of road accidents and the time periods these accidents statistically fall into. Even without treatment, an out of hours consultation can cost from £200 upwards before your animal has been taken out of the carrier! Vets Now is the largest out of hours service who operate as part of the IVC (Independent Vet Care) Group, which is operated and controlled by a board led by CEO Mark Ross. While we pay excruciating amounts of money for out of hours services, usually in a bid to save the lives of animals in emergency situations, IVC reported gross profits of £953 million in the 2022 financial year, while its revenues jumped from £1.31 billion in 2020 to £2.84 billion last year. Sadly, some of the Vets Now services are so busy currently, animals are being referred miles away to other Vets Now theatres, regardless of there potentially being independent vets closer that are also operating 24 hours. As we heard at a recent Welsh Government presentation was the case for one sick little dog. A 7-month-old bulldog who was having seizures, prompting his family to phone their vets at 2am. They were advised by recorded message that only Vets Now were open, but they would not take the dog and referred him to another of their out of hours practices 2 hours away. Tragically, this young dog died in the car enroute.
The corporate's buying power is now so great that the independent veterinary services have been left on their knees, often being pressured to sell up to the corporates as they just cannot compete. With such great buying power, the external companies are also being held to ransom. The more you can purchase, the more cheaply things become in large quantities. The things the corporates are purchasing

in bulk, ultimately creating discounts for themselves, is things such as pharmaceutical products, waste disposal, cremation services, equipment, even services we wouldn't necessarily think of such as direct debit suppliers. Having such big buying power, and many external companies also working on the basis of wealth before health, the corporates are now the preferred buyers on their lists. All the costs they save are not passed down to the customer, us the pet owner, and they also cause independents to have no other option but to increase their costs too. In essence, they have created a monopoly which we, the pet owner, have no option but to use/pay and animals are suffering as a result, even more so now in the middle of this cost-of-living crisis.

The pet food industry has also not escaped the corporates grasp, with that rapidly increasing market being a key target of growth for them. Heavily backed by the corporates are big names most people will be familiar with, like Nestle and Mars. Pet health is now the candy company Mars' biggest financial part of their portfolio, and they have begun their own training academies also. Their take over has resulted in a reduction in choice for consumers.

The representative organisations of the industry are the British Veterinary Association (BVA) and the Royal College of Veterinary Surgeons (RCVS). The British Veterinary Nurse Association receive most of their membership fees from the corporates, and the BVA itself enjoy financial perks and sponsorship from the Mars group and the corporates themselves, leaving many to fear their influence.

As corporate entities acquire more and more vet practices, a troubling pattern emerges - a monopoly that restricts choice and hinders personalized care. Pet owners are increasingly finding themselves limited to a handful of corporate-run clinics, where the focus shifts from individualized treatment to standardized protocols aimed at increasing throughput. This shift towards standardized practices can have detrimental effects on animal health. Conditions that require careful and tailored attention may be overlooked in favour of cost-effective, one-size-fits-all solutions. Furthermore, the pressure to meet profit targets can incentivize practices to upsell unnecessary services or procedures, potentially putting the well-being of animals at risk.

The most distressing aspect of this corporate takeover is the decline in animal welfare standards. With profit margins taking centre stage, the compassionate ethos that drove many independent veterinarians is being overshadowed by financial considerations. The once warm and personalized care that pets received from their local vet is being replaced by impersonal, profit-oriented interactions. We do not intend that to sound like vet bashing either. Many vets are leaving the industry because it is "not what we thought it would be". As the corporate footprint expands, the focus shifts away from the well-being of animals towards bottom-line figures. This shift not only undermines the fundamental values of veterinary care but also jeopardizes the health and happiness of our furry companions.

The corporate takeover of vet practices represents a significant paradigm shift in the veterinary industry, where financial interests often supersede health considerations. While the rise in vet fees can be attributed in part to increasing operational costs, the

underlying issue lies in the prioritization of profit over compassionate care. The health of our furry friends should always take precedence over profit margins and this is exactly why this petition needs to see a positive outcome so the issue can be investigated further and in greater depth.

Mandy, Tiya and Carlie

CatsMatter

University of Glasgow
School of Law

UEA
University of East Anglia
NORWICH BUSINESS SCHOOL

# Written submission to the Senedd Cymru Petitions Committee (P-06-1291: Hold an enquiry into the corporate takeover of the veterinary profession in Wales)

**Respondents:** Dr David Reader* and Dr Scott Summers†

**Date:** 9 October 2024

We welcome the opportunity to make this submission ahead of the Petitions Committee's next scheduled discussion of Petition P-06-1291 on 14 October 2024, and wish to convey our appreciation for the valuable work the Committee has undertaken to date on this issue. We have read, with interest, the information the Committee has received via evidence sessions and written submissions from a range of stakeholders. These contributions raise salient issues regarding the potential impact of corporate ownership of veterinary services, in addition to shining a light on broader concerns within the profession and adjacent industries/sectors. We note the petition itself pre-empts a number of preliminary concerns that have since been raised by the Competition and Markets Authority (CMA) as part of its investigation into the UK market for veterinary services for household pets. We consider the petition and the work of the Committee to be an important complement to the CMA's investigation, especially given certain vulnerabilities faced by pet owners in Cymru, which may fall outside of the scope of the CMA's current focus.

Our interest in this area originates from the operative term in the title of this petition: 'corporate takeovers'. As has been noted in various sources, including research by the Senedd accompanying this petition,[1] the veterinary services market in the UK has borne witness to notable structural change over the past decade, driven by the acquisition of a significant number of independent service providers by a select few corporate entities. We note, in particular, an apparent strategy of 'industry roll-up'—adopted by some corporate entities—whereby a corporate has succeeded in obtaining a position of potential market dominance in a particular region via the acquisition of multiple independent providers in a geographic

* Senior Lecturer in Competition Law, School of Law, University of Glasgow; ✉: david.reader@glasgow.ac.uk.
† Associate Professor in Business Law, Norwich Business School and Centre for Competition Policy, University of East Anglia; ✉: s.summers@uea.ac.uk. Views expressed are the authors' own and do not necessarily represent those of their affiliate organisations.
[1] Senedd Cymru, *Research Petition Briefing P-06-1291* (Ref: SR22/3596-4, 17 October 2022), 2.

radius.[2] Prior to launching its market investigation, the CMA deemed it necessary to reverse several of these roll-up acquisitions on the basis of competition concerns, most notably potential risks associated with the exercise of unilateral power in markets that are more concentrated than they once were.[3] While the CMA has indicated its intentions to subject acquisitions in the veterinary services market to closer scrutiny going forward,[4] the nature of roll-up acquisitions—which have a heightened tendency to fly "below the radar" of merger control thresholds—means there has likely been a degree of underenforcement of these acquisitions in jurisdictions across the world.

In this context, where localised market concentration already appears entrenched, the function of market investigations—and enquiries of the nature proposed by the petition—become even more pivotal. As with the CMA, our research is ongoing, and we are not yet in a position to comment on the precise nature of any failures within the market, nor the degree to which—if any—market concentration, (inhibited) market forces, and/or corporate ownership may be contributing to these failures.[5] We do, however, wish to highlight to the Committee an issue of particular concern to us, which we believe stands to be of nuanced importance to pet owners in Cymru. The early intuition to arise from our research is that certain categories of vulnerable consumers may be particularly exposed to—and/or stand to be disproportionately disadvantaged by—potential failures of the market.

We observe and foresee circumstances where vulnerable consumers—namely, those who are chronically sick, disabled, of pensionable age, on low incomes, and/or residing in rural areas—will struggle to engage with the market effectively and, in some cases, may be unable to access veterinary services at all. For example, vulnerable consumers stand to be disproportionately impacted by the closure of local veterinary practices (which we have observed to arise in the aftermath of several corporate roll-up strategies), particularly those pet owners who live in remote or isolated regions of the UK. While it is likely that the majority of pet owners are in a position to manage the *inconvenience* of local closures, vulnerable pet owners may not have the practical means or capabilities to travel further afield to access veterinary services.[6]

---

[2] David Reader and Scott Summers, 'Paws for Thought: Putting UK vet acquisitions on a tightened leash' (2024) Jun-II, CPI Antitrust Chronicle.
[3] ibid 5-8.
[4] ibid 6, and Sarah Cardell (Chief Executive, CMA), Remarks at the 2023 Annual Antitrust Enforcers Summit: Challenges in Merger Review Panel (27 March 2023), from 1:05:04.
[5] Here, we refer to market failures in the broad sense, as market characteristics, external events, regulatory issues and/or conduct by market participants that result in sub-optimal outcomes for consumers.
[6] While anecdotal, one of the authors has learned of concerns for elderly pet owners, stemming from the recent closure of his local first opinion practice. As a result of the closure, a round trip of 2.4mi to the nearest vet has been extended to 10.2mi. A combination of issues—including limited options for public transport, and no public footpath permitting access between neighbouring towns—means private travel (e.g. by car or taxi) remains the only viable option in many cases.

Moreover, we have preliminary anecdotal evidence indicating that certain categories of vulnerable consumers are less likely to have access to private transport (or are less inclined/able to drive longer distances), meaning longer journeys—arising from the closure of local practices—may need to be made using public transport. This is impractical or unfeasible for many pet owners, especially where veterinary services are sought in emergency situations. The timing, reliability, and calling points of public transport in remote areas may render it unviable for owners seeking to take their pet to their nearest practice. The cost of public transport may also be prohibitive, as may the prospect of taking distressed or severely ill pets on to buses/trains/etc. Private taxi services may be considered as an alternative but, again, costs and other factors may limit this option for some vulnerable groups, especially if taxis can only be booked in advance (a trait of rural taxi operators), and a pet owner is faced with an emergency situation.

We anticipate that pet owners residing in rural areas of Cymru are particularly exposed to: (i) the consequences arising from the closure of local veterinary practices, and (ii) as a matter of associated concern, a 'security of supply' risk, where the insolvency of a single corporate entity calls into question the economic viability of most—if not all—veterinary practices in an entire geographic region. We invite the Committee to consider the pertinence of these risks to the devolved competences the Senedd possesses in relation to animal welfare, which may be compromised by highly-concentrated ownership in local markets.

We have made submissions to the CMA Inquiry Group, recommending the explicit consideration of regional variances in access to veterinary services across the UK, as well as probing the specific experience of vulnerable consumers when engaging with the market.[7] While we have confidence that the remit of the CMA's investigation is capable of extending to the consideration of these issues,[8] the current Issues Statement is silent on the scope that will be afforded to particular categories of vulnerable consumers and to regional nuances. This, we feel, accentuates the importance of the petition before the Committee, which lays the foundations for a deeper-dive into the granular effects of market concentration and corporate ownership in this context, and its potential implications for the welfare of animals (including services provided by charitable bodies) and—to the extent it is possible under the Senedd's devolved powers—vulnerable citizens.

We thank the Committee for its consideration of this submission, and welcome any requests for clarification or elaboration on the points we have raised.

[7] David Reader and Scott Summers, 'Response to CMA market investigation into veterinary services for household pets: Issues Statement' (*Consultation response*, 30 July 2024), paras 1.1–1.6.

[8] In particular, we are hopeful that the CMA's forthcoming consumer survey will gather valuable data to analyse these variations.

# Eitem 3.2

**P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Seren Cole, ar ôl casglu cyfanswm o 258 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae'r ddeiseb hon yn galw ar Senedd Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Cwotâu ar sail Rhyw ac Ethnigrwydd yn ei systemau etholiadol ac mae'n galw am fwy o gynrychiolaeth i bobl o gefndir anabledd. At hynny, mae'n gofyn pa gamau y mae'r Senedd hon a'i phum rhagflaenydd wedi'u cymryd i sicrhau ei bod yn adlewyrchu Cymru gyfan yn well.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, mae 5.2 y cant o bobl Cymru o gefndir ethnig lleiafrifol, ond nid yw'r ffigur hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad presennol y Senedd. At hynny, mae 48.9 y cant yn fenywod yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gyda dros un o bob pump o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn anabl.
Fodd bynnag, nid yw Senedd Cymru'n adlewyrchu'r amrywiaeth hon.
Dim ond 43 y cant o'r Aelodau a etholwyd i'r Senedd sy'n fenywod, a thri Aelod yn unig sydd o gefndir ethnig lleiafrifol, gyda phobl anabl yn gweld ond ychydig gynrychiolaeth, os o gwbl. Bu gwelliannau yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r niferoedd hyn yn dal i fod yn syfrdanol o isel ac, o'r herwydd, mae lleisiau mewn rhannau helaeth o boblogaeth Cymru heb gael eu clywed.
Mae angen cynrychiolaeth yn y Senedd, fel bod anghenion pawb yn cael eu diwallu a'u deall gan eu llywodraeth.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru

**P-06-1374 Dylai tirfeddiannwyr Cymru – yn yr un modd â Lloegr – allu caniatáu 60 diwrnod y flwyddyn o wersylla mewn pebyll a faniau**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Richard Walton, ar ôl casglu cyfanswm o 430 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Yn ystod Covid, estynnodd Cymru hawliau tirfeddianwyr i ganiatáu gwersylla mewn pebyll a faniau gwersylla/cartrefi modur o 28 diwrnod y flwyddyn i 56. Yn 2022, dychwelodd hynny i 28 diwrnod ond cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch gwneud cyfraith 56 diwrnod. Mae cyhoeddiad diweddar gan y Senedd wedi gohirio unrhyw newid parhaol. Ym mis Gorffennaf 2023, mae gan Loegr 60 diwrnod o wersylla a ganiateir, gan roi tirfeddianwyr Cymru dan anfantais. Anogaf y Senedd i edrych ar y gwelliannau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2023 ac ystyried eu dwyn i mewn i gyfraith Cymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol:**
Mae'r gwelliant newydd, a basiwyd yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2023, yn caniatáu 60 diwrnod o wersylla – gyda hyd at 50 o bebyll a faniau gwersylla/cartrefi modur – y flwyddyn i dirfeddianwyr, yn amodol ar rai rheoliadau
newydd: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2023/747/article/3/made
Ymateb y Senedd oedd fod yr ymgynghoriad yng Nghymru wedi dod i ben, ac y byddai newidiadau i'r rheolau gwersylloedd dros dro yn cael eu hystyried mewn diweddariad o'r rheolau hawliau cynllunio a ganiateir yn y dyfodol: https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/87749
Anogaf fod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn awr, ac yn ceisio bod mor gyson â phosibl â'r gwelliannau yn Lloegr er mwyn peidio â rhoi tirfeddianwyr Cymreig fel fi – sydd am arallgyfeirio'r defnydd o'u tir er mwyn cynnal incwm yn y cyfnod anodd hwn i bawb – o dan anfantais.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Rebecca Evans AS/MS**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1374
Ein cyf/Our ref RE/10064/24

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

23 Medi 2024

Annwyl Cadeirydd,

Diolch ichi am eith llythyr ar 17 Gorffennaf ynghylch deiseb P-06-1374.

Mae Llywodraeth Cymru yn dra ymwybodol o ddyhead y sector gwersylla i weld yr hawliau datblygu a ganiateir hyn yn cael eu cyflwyno. Mae swyddogion yn symud ymlaen â gwaith yn y maes hwn, a disgwyliwn gyhoeddi'r papur ymgynghori ar hyn a newidiadau eraill i hawliau datblygu a ganiateir yr hydref hwn.

Bydd y Senedd yn craffu ar yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, felly o gymryd y prosesau ymgynghori hyn i ystyriaeth, dechrau tymor gwersylla haf 2025 fydd y cynharaf y gellir rhoi unrhyw newidiadau posibl ar waith.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1374 Bring Wales in line with England by allowing landowners 60 days tent and campervan camping a year – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 08 October 2024**

Good morning

Thank you for the extension to comment.

I have read the ministers letter and I am content that this is more progress than we have seen over the last 3 years if indeed the draft does go out to consultation in the autumn. I would welcome being notified when the draft proposals are available for comment please so that I can let those who supported my petition know as well and we can respond to the proposals.

I also note that any changes may not become law until the summer of 2025 which is far from ideal being half way through the camping season but I suggest that if businesses know the change is coming into law halfway through the season they can plan for this by using their regular 28 day permitted rights in the first half of the year and then the changes will come into force which will hopefully allow them further days within the year. But of course that will depends on what is in the draft and what comes out of the proposals.

But this is a very welcome step forward and I look forward to seeing the proposals.

Best wishes

Andrew

# Eitem 3.4

**P-06-1433 Rhaid atal y gwaharddiad ar GB News yn y Senedd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Griffiths ôl casglu 309 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Sut gall Comisiwn y Senedd Commission wahardd rhaglenni darlledwr newyddion rhag cael eu dangos yn y Senedd? Dyma sut mae unbeniaeth yn dechrau.
GB News – bydd rhai yn eu hoffi, ac ni fydd eraill yn eu hoffi – ond yn fy marn i maent o leiaf yn cynnig trafodaeth wirioneddol ac yn gwahodd pob ochr o'r ddadl.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Carolyn Thomas AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

27 Medi 2024

Annwyl Carolyn,

**Cyf: Llythyr gan y Pwyllgor ynghylch Deiseb P-06-1433**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf. Mewn ymateb i'r cais a wnaed gennych yn eich llythyr, rwy'n ysgrifennu atoch i egluro'r sefyllfa bresennol.

Yng nghyfarfod y Comisiwn ar 15 Gorffennaf, trafododd y Comisiynwyr yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd ar gais y Comisiwn gan un o'i Gynghorwyr Annibynnol. Diben y darn hwn o waith oedd cynorthwyo Comisiwn y Senedd i lunio protocol/polisi darlledu a fyddai'n rhoi eglurder ar y sianeli a fyddai ar gael ar system deledu fewnol y Senedd yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn nodi y dylai'r polisi fod:

- Yn dryloyw: dylid cyhoeddi'r polisi ar y fewnrwyd ochr yn ochr â rhestr o'r sianeli sydd ar gael.
- Â chysylltiad agos â barn y Comisiwn ynghylch yr hyn sydd orau i ddiwallu anghenion proffesiynol yr Aelodau, eu staff a staff y Senedd. Sianeli a gorsafoedd radio sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes sydd fwyaf tebygol o fod yn y categori hwn. Mae'n anodd gweld cyfiawnhad dros gynnig amryw o sianeli adloniant a gorsafoedd radio cerddorol ar rwydwaith mewnol y Senedd.
- Yn wleidyddol ddiduedd: mae'n hanfodol bod Comisiwn y Senedd yn wleidyddol ddiduedd, ac yn cael ei weld yn wleidyddol ddiduedd, ac nad yw pobl yn meddwl bod penderfyniadau ynghylch pa sianeli i'w cynnwys ar y rhwydwaith yn cael eu gwneud ar sail safbwyntiau gwleidyddol Aelodau. Byddai dilyn safon reoleiddio allanol o ran didueddrwydd yn rhoi sicrwydd yn hyn o beth.

- Yn syml: mae rheol syml yn hawdd i'w hesbonio ac yn hawdd i'w dilyn. O gael rheol fwy cymhleth, mae perygl y gallai’r Comisiwn gael ei dynnu i mewn i drafodaethau hirfaith ynghylch pa sianeli teledu i’w cynnwys neu i gael gwared arnynt, ac ni fyddai hynny o fudd i neb.
- Yn gosteffeithiol: dylai Comisiwn y Senedd leihau gwariant cyhoeddus ar gynnwys sianeli ar ei rwydwaith mewnol ac ar weithredu ei bolisi yn hyn o beth.

Cafodd y Comisiynwyr gopi o’r wybodaeth yn yr adroddiad, gan dderbyn y dull polisi a argymhellwyd gan y Cynghorydd Annibynnol.

Y safbwynt polisi a fabwysiadwyd oedd mai prif ddiben y system deledu fewnol yn y Senedd yw darparu ffrydiau darlledu ar gyfer y Siambr a’r Ystafelloedd Pwyllgora. Yn ogystal, mae nifer o sianeli teledu a gorsafoedd radio ar gael hefyd. Y sianeli teledu yw’r rheini y mae’r Comisiwn yn ystyried eu bod yn diwallu anghenion proffesiynol yr Aelodau, eu staff a staff y Senedd ac y mae’n ofynnol iddynt drwy statud ddarparu darllediadau cynhwysfawr ac awdurdodol o newyddion a materion cyfoes yn y Deyrnas Unedig, ac yng ngwahanol rannau’r Deyrnas Unedig, ac o bob cwr o'r byd. Yn ogystal, mae nifer o orsafoedd radio sydd, yn bennaf, yn darparu darllediadau newyddion awdurdodol hefyd wedi'u cynnwys ar y rhwydwaith mewnol.

Bydd hyn yn golygu y bydd system driphlyg Comisiwn y Senedd (‘triple play system’ yn Saesneg) yn cynnwys y sianeli hynny sydd â rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus yn unig, sef: y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 ac S4C. Cytunodd y Comisiynwyr ar un ychwanegiad at y ddarpariaeth hon, sef cynnwys Sky News fel sianel ychwanegol i sicrhau lluosogrwydd o ran rhaglenni newyddion.

Mae ystod eang o sianeli teledu a systemau radio eraill ar gael ar-lein gan ddefnyddio rhwydwaith TG y Senedd.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

# Eitem 3.5

**P-06-1442 Ehangu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion uwchradd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Unite Community Cardiff and Area Branch ôl casglu 254 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw am y canlynol:
Gweithredu prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion uwchradd, ni waeth beth fo'u gofynion dietegol o ran alergeddau, crefydd neu resymau personol.
Sicrhau, hyd y gellir, fod y prydau ysgol am ddim yn dod o ffynonellau moesegol a chynaliadwy, a bod hawliau gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi yn cael eu diogelu.
Annog pob ysgol i gael cegin o ansawdd dda ar y safle sy'n gwneud bwyd ffres pryd bynnag y bo modd a, phan na fo modd, fod cyflenwyr yn defnyddio cynnyrch ffres a lleol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn 2021, cyflwynwyd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Mae gwneud hyn wedi bwydo degau o filoedd o blant ifanc y mae llawer ohonynt mewn tlodi, ac mae wedi lleihau yn aruthrol y stigma ynghylch derbyn y prydau bwyd hyn. Rhaid i fwydo plant fod yn flaenoriaeth wleidyddol bob amser.
Mae'n bryd i hyn fynd yn ei flaen. Yn ôl y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, mae 19% – sef tua 25,000 – o blant mewn tlodi yn dal i fod heb fynediad at brydau ysgol am ddim oherwydd y profion modd mewn ysgolion uwchradd. Mae risg y byddan nhw'n mynd heb fwyd, ac mae Ymddiriedolaeth Trusell yn amcangyfrif bod 20% o oedolion yng Nghymru yn profi ansicrwydd bwyd.
Yn ogystal, credwn fod modd, a bod rhaid, i brydau ysgol am ddim i holl blant gael eu defnyddio i addysgu, gan gynnwys addysgu economeg y cartref yng Nghymru a hyrwyddo gwerth am arian a diet iach yn enwedig, ynghyd â ffynonellau lleol, moesegol a chynaliadwy, fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

**P-06-1442 Extend Universal Free School Meals to secondary schools - Correspondence from St Joseph's Catholic & Anglican School and TCC Youth in Action Group, 03 October 2024**

---

Senedd Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Dear Members of the Senedd Committee,

**Re: Support for the No Hungry Learners Campaign**

We, the students of St Joseph's Catholic & Anglican School, are writing to you as part of the TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities) Youth in Action group to express our deep concern about the issue of school meal debt and its impact on young learners in Wales. Our campaign, #NoHungryLearners, aims to alleviate the burden of school meal debt and ensure that all children have access to adequate food, which is essential for their physical, mental, and academic development.

Article 27 of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) states that children and young people should be able to live in a way that helps them reach their full potential. This includes having access to adequate food and housing. Unfortunately, many students in our community are struggling with school meal debt, which not only affects their nutrition but also their ability to focus and succeed in their studies.

Our campaign has been primarily focused in Wrexham, but we believe this issue needs to be addressed across the whole of Wales. Throughout 2023, we have been actively working on this campaign. We have met with our Headteacher, Mr. Wilkinson, as well as local representatives including Ken Skates MS, Lesley Griffiths MS, and Education Lead for Wrexham, Cllr Phil Wynne, to discuss the issues and potential solutions. Our efforts were also highlighted at the National Child Poverty Summit in Swansea, where we presented our campaign and its goals to a wide audience, including the Children's Commissioner for Wales, Rocio Cifuentes.

We believe that by addressing school meal debt, we can remove a significant barrier to education and help all children thrive academically. We urge the Senedd Committee to support our campaign and take action to ensure that no child in Wales goes hungry at school.

Thank you for your time and consideration. We look forward to your support in making a positive change for the children of Wales.

Yours sincerely,

[Your Name]
On behalf of the students of St Joseph's Catholic & Anglican School and TCC Youth in Action Group

---

**Statement of Evidence: No Hungry Learners Campaign**

**Campaign Overview:** The TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities) Youth in Action group, comprising students from St Joseph's Catholic & Anglican School in Wrexham, launched the #NoHungryLearners campaign to address the issue of school meal debt and its impact on students' well-being and academic performance.

**Key Findings:**

- **Survey Results:** A survey conducted within the school revealed alarming statistics:
  - 30% of students reported being refused a meal due to debt on their account.
  - 30% of students had to skip a meal at school due to lack of money.
  - 73% of students who were refused a meal were informed about their debt in front of their peers, causing unnecessary shame and stress[1].

**Campaign Activities:**

- **Meetings and Advocacy:** The youth group met with key stakeholders, including:
  - Mr. Wilkinson, Headteacher of St Joseph's.
  - Ken Skates MS and Lesley Griffiths MS.
  - Cllr Phil Wynne, Education Lead for Wrexham.
  - Rocio Cifuentes, Children's Commissioner for Wales[21].
- **National Child Poverty Summit:** The campaign was presented at the National Child Poverty Summit in Swansea, highlighting the issue to a broad audience of community and charity groups, as well as policymakers[2].

**Impact and Progress:**

- **Policy Changes:** Following discussions with the Headteacher, measures were implemented to ensure that students are discreetly offered a meal even if their account is in debt, in line with council policy[1].

- **Community Engagement:** The campaign has garnered support from local politicians and community organizations, enhancing its reach and impact[1].

**Supporting Materials:**

- **Campaign Video:** A video summarizing the campaign's goals and activities was created and presented at various events[2].
- **Attachments:** This statement includes a detailed letter and the campaign video for further reference.

**Future Steps:**

- **Monitoring and Evaluation:** Continued efforts to monitor the implementation of policies and support students facing meal debt.
- **Expansion:** Plans to extend the campaign's reach across Wales, advocating for systemic changes to eliminate school meal debt and ensure no child goes hungry at school.

**Request for Support:** We urge the Senedd Committee to support the #NoHungryLearners campaign and take necessary actions to address school meal debt across Wales. Ensuring that all children have access to adequate food is crucial for their academic success and overall well-being.

# Eitem 3.6

**P-06-1455 Amddiffyn adrannau iau Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru rhag cael eu cau**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rebecca Totterdell ôl casglu 10,560 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi darparu rhaglen gerddoriaeth ac actio i fyfyrwyr iau rhwng 4 a 18 oed ers 25 mlynedd. Ar hyn o bryd mae tua 300 o bobl ifanc dalentog yn mynd drwy ei ddrysau bob penwythnos, ac mae llawer ohonynt ar fwrsari. Dyma'r unig ddarpariaeth o'i math yng Nghymru.
Oherwydd trafferthion ariannol mae'r Coleg yn gorfod ymgynghori ynghylch cau'r rhaglenni actio a cherddoriaeth i bobl ifanc ar ddiwedd y tymor hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Os bydd y rhaglenni'n cau, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru fydd yr unig Ysgol Cerddoriaeth Frehninol heb adran i fyfyrwyr iau.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

## P-06-1455 Protect the junior departments of the Royal Welsh College of Music and Drama from closure - Correspondence from the Petitioner, 08 October 2024

Dear Petitions Committee

Apologies for my slow response to your email regarding the debate on my petition to protect the junior departments of the RWCMD. The reason I missed your previous email is that I have been working flat out on the creation of a replacement school for the junior department. Some of the now redundant teachers and banded together with me to start a cooperative during the summer break, and we were soon approached by Emma Archer of Cardiff music service and Mari Pritchard of the National Music Service to see if they could work in partnership with us. We agreed, and together we have set up the Young Musicians Academi, which has now been running at Stanwell School in Penarth each Saturday for the past three weeks. The effort it has taken to put this together in the incredibly short time the RWCMD allowed us has been enormous. But I hope this proves to them that their is a need to provide this service for the children of Wales and that they see the huge mistake they have made in rejecting the future of our country's arts talent.

Indeed, the response to this from RWCMD has been true to form. I contacted them to ask for a meeting to enable me to request basic assistance such as to see if they would inform ex students about the new provision, or perhaps offer us use of their hall for a fundraising concert for the Academi as a courtesy. The response I received said they would be in touch with me when the necessary staff returned from their summer breaks. They still have not been in touch, despite staff having returned to work.

The funding is still a huge issue for us at the Academi. Studying music at a high level requires a lot of contact time between teachers and students, and the experienced staff teaching these students do deserve to be paid a fair wage. We have set up a fundraising campaign and are applying for external support for the Academi, but I maintain that the talented young musicians of Wales deserve the same funding opportunities as their English and Scottish counterparts. We have already lost numerous children from the arts to this catastrophe, and will continue to do so if we cannot assist those who are on lower incomes with bursaries.

I would ask the Welsh government to consider matching the National Music and Dance Scheme which offers financial support to talented young musicians attending specialist music schools in England, if they want to protect the future talent of their nation.

Yours sincerely

Rebecca Totterdell

# Eitem 3.7

**P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Victoria Anne Lightbown, ar ôl casglu 15,160 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Er gwaethaf y ffaith mai ychydig flynyddoedd yn unig yw hi ers i'r newidiadau gael eu cyflwyno, ac er gwaethaf yr addewidion o gymorth cynharach a gwell i blant a phobl ifanc ag ADY, mae mwy a mwy o ddisgyblion ADY yng Nghymru'n cael eu methu. Mae problemau hefyd o ran cysondeb ac atebolrwydd.

Mae ffocws mawr o hyd ar Ddarpariaethau Cyffredinol yn hytrach na dull cyfannol Cynlluniau Datblygu Unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer disgyblion ADY. Dylai disgyblion ag anableddau iechyd meddwl / corfforol gael mynediad cyfartal at gymorth ac addysg o safon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Gwrthodir cymorth i blant dan 5 oed ar sail y 'rhagdybiaeth' y byddant yn 'dal i fyny' erbyn iddynt gyrraedd oedran ysgol statudol. Pan gaiff Cynlluniau Datblygu Unigol eu llunio, mae ysgolion yn gallu dehongli yr hyn sydd ei angen heb atebolrwydd digonol na chysylltiad â therapyddion iechyd arbenigol am arweiniad. Galwn am barchu hawliau o dan Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledd gdrwy sicrhau:

- Cod ymarfer cyffredinol i ddarparu addysg gynhwysol o safon i bob disgybl ADY.
- Lleoliadau addysgol sy'n cynnig darpariaethau ag adnoddau priodol a staff hyfforddedig sy'n cyrraedd safon addysg gyda sicrwydd ansawdd i wneud y system yn deg ac yn ddibynadwy ac i'w galluogi i ateb y galw cynyddol.
- Mae angen i addysg ac iechyd weithio'n agosach gyda'i gilydd.
- Hyfforddiant arbenigol gorfodol a chymorth i athrawon a'u staff.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1392
Ein cyf LN/05579/24

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Awst 2024

Annwyl Cadeirydd

**Diwygio cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin 2024 ynglŷn â'r ddeiseb: Diwygio cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i grŵp Diwygio System ADY Cymru ac aelodau'r Senedd am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i gydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod uchelgeisiau diwygio'r system ADY yn cael eu gwireddu.

Rwyf am ailadrodd fy mod wedi ymrwymo'n llwyr i wella'r system ADY a chreu addysg gynhwysol lle gwrandewir ar anghenion pob dysgwr, lle yr ymatebir iddynt a lle cefnogir dysgwyr i gymryd rhan lawn mewn addysg.

Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym nad yw'r system ADY yn gweithredu'n effeithiol mewn rhai meysydd. Rydym hefyd yn clywed am yr heriau cynyddol sy'n wynebu'r system. Mae'n amlwg bod angen gweithredu ar y cyd, gan gynnwys cyfnod o adolygu, cynllunio a phrofi cynigion i sicrhau ein bod yn cyflawni dros blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Roedd adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ('*Gweithredu diwygiadau addysg*' ac '*A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg*') a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn nodi argymhellion y mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ohonynt ac wrthi'n nodi camau i'w gweithredu. Mae'r argymhellion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru fel rhan o adolygiad ehangach, a byddaf yn rhannu ein hymateb i'r adroddiad gyda'r Pwyllgor Deisebau.

Rwyf wedi gwrando ar grwpiau rhieni ac yn cydnabod eu pryderon. Rwy'n llawn sylweddoli bod cael gwrandawiad yn rhan o'r ateb. Mae hwn yn faes cymhleth ac yn elfen sensitif iawn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

o bolisi'r llywodraeth. Un o agweddau pwysig y gwaith hwn fydd sicrhau bod rhieni a dysgwyr yn cael lle canolog yn y broses ADY. Byddwn yn parhau i wrando a chydweithio â rhieni i ofalu eu bod yn cael y gefnogaeth, yr arweiniad a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Mae fy swyddogion eisoes wedi estyn allan i grŵp diwygio system ADY Cymru, a grwpiau rhieni a thrydydd sector eraill.

Fel y gwyddoch, rwyf wedi nodi fy ymrwymiad i wella'r drefn a sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol yn cael ei ddeall yn glir, a pha gamau y gallwn eu cymryd yn y tymor byr i gefnogi'r sector i nodi a diwallu anghenion dysgwyr. Rwy'n falch o ddweud bod y gwaith eisoes wedi dechrau.

Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro partneriaid cyflawni allweddol, gan ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ac eglurder o ran y disgwyliadau fel y'u nodir yn y ddeddf a'r cod. Rydym yn parhau i drafod yn rheolaidd gydag Estyn, a chefais gyfarfod â nhw y mis hwn i ddeall canfyddiadau gweithgareddau arolygu, a'r cynnydd a'r ddealltwriaeth hyd yn hyn, fel rhan o'r ail adolygiad thematig o'r system ADY.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Senedd am gyfrannu tystiolaeth bwysig a chaniatáu'r amser i swyddogion ganolbwyntio ar y gwaith sydd ei angen er mwyn symud yn gyflym a rhoi tawelwch meddwl i deuluoedd bod eu pryderon yn cael eu clywed a bod pethau'n symud yn eu blaen. Byddaf yn cadw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am gynnydd a byddaf yn ceisio ymateb i bryderon a godwyd gan Grŵp Diwygio ADY Cymru.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

# Eitem 3.8

**P-06-1341 Canllawiau hygyrch ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn helpu'r broses o ddatblygu cynlluniau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Zoe Beasley, ar ôl casglu cyfanswm o 347 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae tua 1,400 o blant a phobl ifanc â diabetes math 1 yng Nghymru. O ran y plant hynny sy'n byw ag anableddau o'r fath, mae angen cymorth arnynt yn yr ysgol i reoli eu cyflwr a sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial. Fel mam, rwyf yn un o lawer o rieni nad yw eu plant, sydd â diabetes math 1, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn sgil diffyg dealltwriaeth o'r cyllid ar gyfer darparu'r gofal sydd ei angen yn yr ysgol. Rydw i ac eraill wedi profi diffyg cymorth o ran gofal, ac rwy'n ceisio newid y sefyllfa hon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Rwy'n rhwystredig ynghylch y diffyg mynediad at gefnogaeth bwrpasol; heb y gefnogaeth hon, gall diabetes math 1 arwain at gymhlethdodau sy'n peryglu bywydau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio plant â diabetes yn gyfreithiol fel pobl sy'n byw ag anabledd. Rhaid i sefydliadau addysg fel ysgolion sicrhau nad yw disgyblion sy'n byw gyda diabetes yn dioddef anfantais.
Ni waeth pa mor hyderus yw'r plentyn dan sylw, nid yw plant yn gallu cael eu hyfforddi ar y defnydd o bwmp inswlin tan eu bod yn 11 oed. Felly, gan fod plant yn cael diagnosis o'r adeg y cânt eu geni, mae'r cymorth a ddarperir rhwng yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd yn fwy hanfodol fyth o ran rheoli diabetes.
Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gam i'w groesawu. Fodd bynnag, dim ond nawr y mae'r Ddeddf honno'n cael ei rhoi ar waith. Mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi cyflwyno mesur statudol, sef Cynlluniau Datblygu Unigol, at ddibenion cefnogi myfyrwyr drwy ddatblygu fframwaith cefnogol er mwyn sicrhau bod eu hanghenion academaidd, corfforol a chymorth yn cael eu diwallu.

Rwy'n gofyn i'n Llywodraeth adolygu'r canllawiau presennol ar gyfer y ddeddfwriaeth ADY newydd er mwyn cynyddu cyfranogiad ysgolion/Awdurdodau Lleol drwy greu canllawiau a chymorth ar ffurf hygyrch sy'n lleihau unrhyw rwystrau o ran mynediad.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

# Eitem 3.9

**P-06-1342 Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Stevie Pyne, ar ôl casglu cyfanswm o 1,429 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Wrth edrych ar gyllid a ddarperir ar gyfer darpariaethau arbenigol yng Nghymru i blant ag anghenion ychwanegol, mae'n bell o fod yn dderbyniol bod yn rhaid i blant sydd â lefel uchel o anghenion gael eu gorfodi i aros mewn amgylchedd prif ffrwd oherwydd diffyg lleoedd mewn ysgolion ac oherwydd nad oes gan ysgolion ddigon o arian na staff!

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae ysgolion arbenigol a darpariaethau uned ledled Cymru eisoes yn llawn ac nid yw'r rhai sydd ddim yn llawn eto yn bell y tu ôl. Nid oes digon o staff mewn ysgolion, mae staff eisoes yn gorweithio, ni all plant ag anghenion dysgu ychwanegol gael yr addysg a'r cymorth y maent yn ei haeddu o'r dechrau. Mewn nifer o achosion, mae ymyrraeth gynnar yn eithriadol o bwysig ac mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu tynnu oddi ar blant oherwydd yr argyfwng yr ydym yn ei wynebu yn ein system addysg.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru

**P-06-1347 Adolygu polisïau anghenion dysgu ychwanegol a'i gwneud yn orfodol i hyfforddi pob athro a chynorthwyydd addysgu mewn technegau rheoleiddio YN LLAWN**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Clare Anna Mitchell, ar ôl casglu cyfanswm o 6,353 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Rwy'n galw am adolygiad o'r polisïau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ysgolion a chynnydd anferth yn y gefnogaeth a roddir i'r 40 y cant o'n plant sy'n wynebu trafferthion bob dydd. Mae angen dysgu iddynt dechnegau hunanreoli o'r blynyddoedd cynnar, a thrwy hynny greu ystafelloedd dosbarth hapusach, llai trafferthus, a rhoi iddynt flwch offer a fydd gyda nhw am oes. Yn y tymor hir, byddai gostyngiad mewn problemau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chyfraddau troseddu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:

Nid oes ond ychydig iawn o gyfleusterau addysgu arbenigol Cymraeg. Mae hyn yn gwahaniaethu yn erbyn hawl plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg.

1. Dylai hyfforddiant athrawon yn y brifysgol ganolbwyntio'n sylweddol ar ADY er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn effeithiol. Mae gan 40 y cant o ddysgwyr ryw fath o ADY. Dylai hyn fod yn orfodol, nid dewisol! Mae strategaethau ADY yn helpu pob dysgwr.

2. Ymgyrch Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth – mae niwroamrywiaeth yn effeithio ar o leiaf 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru. Dylai dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o niwroddatblygiadol a sut mae'n ymddangos ac yn effeithio ar bobl fod yn gyffredin er mwyn sicrhau Cymru gynhwysol.

3. Cefnogaeth i gynorthwywyr addysgu – mae angen i gynorthwywyr addysgu gael eu gwerthfawrogi, eu hyfforddi a'u talu'n iawn

4. Cyllid ar gyfer athro niwroamrywiaeth arbenigol a chynorthwyydd addysgu ym mhob awdurdod lleol i gefnogi, arwain a hyfforddi staff yn yr ysgol.

5. Nid yw darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn cael ei chefnogi cystal ag y mae darpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac nid yw hyn yn darparu cydraddoldeb a chynhwysiant i ddysgwyr Cymraeg.

6. Bellach, mae 40 i 60 y cant o ddisgyblion ag anawsterau dysgu cyffredinol yn methu â chael cod o dan y cod newydd Darpariaeth Gyffredinol yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

7. Cymorth i rieni gan staff hyfforddedig a all eu cyfeirio at gymorth ar gyfer anghenion eu plant.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru

**P-06-1406 Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Victoria Anne Lightbown, ar ôl casglu 327 o lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb:**
Mae Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru wedi nodi methiannau sylweddol gan awdurdodau addysg lleol o ran cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer
1) Nodi ADY
2) Cwblhau Cynlluniau Datblygu Unigol
3) Cydymffurfio â gorchmynion tribiwnlys

Credwn y dylai awdurdodau addysg lleol fod yn atebol am y methiannau hyn. Credwn y dylai fod cosbau ariannol i'r awdurdodau addysg lleol am y methiannau hyn.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Your ref: P-06-1474
Our ref: CX24-154

Gareth Price
Petitions Committee Clerk
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

By email only: petitions@senedd.wales

30 September 2024

Dear Gareth

## Petition P-06-1474 Stop Natural Resources Wales closing Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin and Ynyslas Visitor Centres

Thank you for your letter of 16 September.

As the Petitions Committee will be aware, public funding is very tight, not only for NRW but also for other public sector bodies. NRW needs to make a minimum saving of £13 million over the next two years. As such, we are having to look across all of our remit and critically review what we can and must continue to do, what we stop, and what we slow or do differently to fulfil our Corporate Plan ambitions. We are having to make difficult decisions in order to achieve these savings.

While we fully recognise how well loved and regarded our visitor centres are, the truth is that NRW is not best placed to operate catering and retail facilities. We have acknowledged that if we are to support visitor access and maintain the sites for future use, the centres themselves need to be run by organisations that have the skills, knowledge and financial capacity to operate in the retail and catering sector.

In the Case for Change, we proposed that visitor centre sites remain open for recreation access, such as walking and biking, as they are currently. Services such as play areas, car parking and toilet provision will also remain available. The proposal is that we no longer operate catering and retail provision at visitor centres but that we will seek to identify and work with partners to run these services. Our visitor centre staff are not responsible for managing the land in and around the centres, so are not responsible for trail and access management.

We are currently reviewing the services we provide as part of our Case for Change process. This impacts all our services, not just visitor centres. Our consultation with Trade

Unions on the proposals has now closed, and we will review the information received during the consultation to determine if any adjustments are needed. The final proposals will be presented to the NRW Board for consideration in the autumn.

The outcome of the Case for Change will then be communicated to staff, and further information on impacted services will be shared with the public and stakeholders in due course. At that point, we will re-engage with local groups and potential partners about the next steps at each visitor centre site. These may be slightly different, as each site has bespoke needs that will need to be considered.

We have already been approached by multiple community groups and private enterprises that are interested in operating the visitor centres, and we are planning further public meetings in mid-November. Information about those meetings will be shared in due course.

It is very important to NRW that we do this responsibly and in the right way, and that we secure the future of the sites for maximum benefit in the long-term. It is a great opportunity to secure future investment in the sites, provide refreshed interest in the areas and promote the ongoing attractiveness of mid-Wales as a destination for visitors to Wales.

Yours sincerely

*pp. Sarah Jennings, Executive Director for Customer, Communications & Commercial*

**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi.
Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.

# Eitem 4

By virtue of
Regulation 21(1)(A) of the Local Authorities (Executive Arrangements) (Access to Information) (England) Regulations 2000.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon